Diogelu Gwent
Gwent Safeguarding

# Briff 7 munud

# Adolygiad Ymarfer Plant Estynedig




## Cefndir

**1** Comisiynwyd adolygiad Ymarfer Plant gan Gadeirydd Bwrdd Diogelu Plant De-ddwyrain Cymru, ar argymhelliad y Cyd-grŵp Adolygu Achosion. Roedd hyn yn unol â 'Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014: Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl Cyfrol 2 – Adolygiadau Ymarfer Plant', yn dilyn marwolaeth merch 17 oed drwy grogi ym mis Hydref 2021.

Ganwyd Plentyn L yn Latfia, ac roedd yn byw gyda'i mam-gu ar ochr ei mam gan fod ei mam wedi symud i Fryste. Yn 9 oed, aeth Plentyn L a'i mam-gu yno hefyd. Yn 2014, roedd y teulu'n hysbys i'r Gwasanaethau Plant oherwydd pryderon ynghylch ymddygiad rhywiol, cam-drin domestig, adroddiadau am gyflawni trais tuag at Blentyn L gan ei mam a'i llystad, yn ogystal â hunan-niwed ac ymgais posibl o hunanladdiad. Yn 2015, tynnwyd Plentyn L i ffwrdd o ofal ei mam a'i llystad gan yr heddlu trwy Orchymyn Gofal Interim. Ym mis Mawrth 2016, aeth yn ôl i gartref y teulu.

## Cyd-destun

**2** Symudodd y teulu i dde Cymru lle cafwyd atgyfeiriadau a chyswllt â nifer o asiantaethau oherwydd y berthynas rhwng Plentyn L a'i theulu. Yn 2019 yn 14 oed, symudodd Plentyn L allan o gartref y teulu ac aeth i fyw gyda dyn 18 oed a'i fam; cefnogwyd y trefniant hwn gan fam Plentyn L. Mynegodd mam-gu Plentyn L a gwasanaethau Addysg bryderon am y berthynas â'r gŵr hŷn. Dylid bod wedi cynnal Trafodaeth Strategaeth amlasiantaeth ond nid oes cofnod bod hyn wedi cael ei hystyried. Daeth y Gwasanaethau i Blant i'r casgliad nad oedd unrhyw dystiolaeth o gam-drin neu gamfanteisio. O ganlyniad, parhaodd Plentyn L i fyw gyda'i phartner a'i fam.

Yn 2021, yn 16 oed, ymgyflwynodd Plentyn L fel person digartref wedi i'w pherthynas fethu. Ar adeg ei marwolaeth, roedd Plentyn L yn byw mewn llety dros dro â chymorth a ddarparwyd gan yr Awdurdod Lleol. Daeth staff y llety dros dro o hyd i Blentyn L yn crogi ac wedi marw yn ei hystafell ym mis Hydref 2021 yn ystod gwiriadau lles boreol.

## Dysgu

**3** **Cyfleoedd a fethwyd:** Yn ystod y ddwy flynedd cyn marwolaeth Plentyn L, methwyd cyfleoedd i gyflwyno Hysbysiadau Diogelu Cyhoeddus (PPN) a Dyletswyddau i Adrodd (DTR). Nodwyd sawl pryder ar ffeil preswylydd Plentyn L yn ei llety yn gysylltiedig â ffactorau risg yn ymwneud â **Chamfantesio'n Rhywiol ar Blant.** Ymddengys nad ystyriwyd arwyddion rhybudd o gamfanteisio posibl.

**Methu gwybodaeth diogelu a rhannu trawsffiniol:** Nid yw'n glir pa gamau a gymerwyd gan y Gwasanaethau i Blant i gael gwybodaeth oddi wrth dîm Gwasanaethau i Blant yr Awdurdod Lleol blaenorol fel rhan o asesiadau Plentyn L. Gan nad aseswyd erioed bod angen ymyrraeth barhaus ar Blentyn L, ymddengys nad oedd unrhyw un wedi gofyn am neu ddilyn i fyny ar y ceisiadau cychwynnol am wybodaeth. Pe buasai'r wybodaeth hon yn hysbys yn gynt, efallai y byddai ymyrraeth wedi digwydd.

## Dysgu

**4** **Llais y plentyn:** Ar adegau, cafodd Plentyn L ei thrin fel oedolyn a allai wneud penderfyniadau heb gymorth, ac ar adegau eraill, fe'i hystyriwyd yn blentyn oedd angen i'w mam wneud penderfyniadau ar ei rhan. Nid oes llawer o dystiolaeth bod ei llais wedi'i ystyried yn yr asesiadau a gwblhawyd.

**Ansawdd yr asesiadau diogelu:** Cwblhawyd dau asesiad yn ystod y cyfnod adolygu. Oherwydd y pandemig COVID-19, cwblhawyd asesiadau dros y ffôn. Teimlwyd nad oedd yr asesiad cyntaf wedi rhoi ystyriaeth lawn i'r ffactorau risg ehangach oedd yn gysylltiedig â Phlentyn L. Yn ystod yr ail asesiad, nid oedd unrhyw dystiolaeth i ddangos bod Dyfarniad Southwark wedi'i gymhwyso i'r asesiad. Petai'r Dyfarniad wedi'i gymhwyso, gallai fod wedi sicrhau bod Plentyn L yn cael amddiffyniadau ehangach a hawliau ar ôl gadael y gwasanaethau gofal. Ar y ddau achlysur, ni ystyriwyd diogelwch Plentyn L o dan y Gweithdrefnau Diogelu.

## Argymhellion

**5**

1. Darparwr y llety â chymorth i sicrhau bod cynllun hyfforddiant a datblygu diogelu ar waith.
2. Rhaid i bob asiantaeth atgoffa staff o bwysigrwydd cydnabod oedran y plentyn wrth ystyried y pryderon a gyflwynir, profiad bywyd y plentyn a'r camau gweithredu gofynnol yn unol â Gweithdrefnau Diogelu Cymru Gyfan.
3. Yr holl asiantaethau i adolygu offer cofnodi mewnol er mwyn sicrhau y caiff llais y plentyn ei hyrwyddo a'i nodi.

**4/5**. Rhaid i Ymarferwyr Gwasanaethau i Blant sicrhau bod plant yn cael eu gweld (a'u gweld ar eu pen eu hunain os yn briodol) fel rhan o asesiad. Os yw rhieni'n gwrthod neu'n herio'r angen i blentyn gael ei weld (a'i weld ar ei ben ei hun os yw'n briodol), rhaid uwchgyfeirio hyn a'i gofnodi.

**6.** Dylai'r Bwrdd Diogelu ystyried datblygu canllawiau ymarfer ar sail profiad byw y plentyn er mwyn cynorthwyo treiddgarwch ymarferwyr i sicrhau y caiff llais y plentyn ei glywed yn weithredol ac i hyrwyddo gweithredu effeithiol i ddiogelu plant a phobl ifanc.

**6**

**7.** Gwasanaethau Plant a'r Adran Dai i sicrhau bod y staff perthnasol yn ymwybodol o Ddyfarniad Southwark. Efallai bydd angen i asiantaethau adolygu eu hoffer asesu er mwyn sicrhau eu bod yn canolbwyntio ar y plentyn, yn hyrwyddo llais y plentyn ac yn cofnodi bod gan y plentyn y gallu i roi cydsyniad gwybodus.

**8.** Y Bwrdd Diogelu i ofyn i Fforwm Gadael Gofal Cymru Gyfan ystyried datblygu deunyddiau (fideos/podlediadau) a grëir gan bobl ifanc â phrofiad o ofal y gellir eu defnyddio i gynorthwyo pobl 16/17 oed i ddeall Dyfarniad Southwark.

**9.** Yr holl asiantaethau i sicrhau bod ganddynt weithdrefnau ar waith i gasglu gwybodaeth hanesyddol o meysydd eraill a bod polisïau uwchgyfeirio eglur ar waith os na ddarperir yr wybodaeth hon o fewn amser rhesymol.

**10.** Pe digwyddai pandemig arall, rhaid i'r asiantaethau fod â chynlluniau wrth gefn eglur er mwyn sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cael eu gweld wyneb yn wyneb.

## Ymarfer Cadarnhaol – allwn ni roi hyn cyn dysgu?

**7** Cyflwynodd lleoliadau **addysg** sawl atgyfeiriad i'r Gwasanaethau Plant a chawsant gysylltiad rheolaidd â Phlentyn L trwy gydol COVID-19, gan gynnig cymorth i Blentyn L gyda thasgau academaidd.

Ers marwolaeth Plentyn L, mae **Heddlu Gwent** wedi cynnwys hyfforddiant yn seiliedig ar Brofiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod (ACE) a thrawma i'w gweithlu.

Ers marwolaeth Plentyn L, mae'r **Bwrdd Iechyd** wedi cadarnhau ei fod wedi rhoi proses ar gyfer cyflwyno atgyfeiriadau diogelu ar waith, sy'n sicrhau bod atgyfeiriadau diogelu yn cael eu hanfon ar y diwrnod caiff y pryder neu fater diogelu ei godi.

Mae **Llety â Chymorth** yn adolygu'r cynllun hyfforddiant diogelu ar hyn o bryd er mwyn sicrhau y caiff yr holl staff hyfforddiant Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod, hyfforddiant Camfanteisio Rhywiol ar Blant a hyfforddiant cam-drin domestig.